Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

RHAGLEN HYFFORDDIANT ACHREDEDIG

www.welshwomensaid.org

Beth yw Hyfforddiant Achrededig?

Mae hyfforddiant achrededig yn cynnig y cyfle i ddilysu hyfforddiant ym maes cam-drin domestig. Mae cael cymhwyster cydnabyddedig mewn maes arbenigol yn dilysu sail wybodaeth a sgiliau'r staff sy'n gweithio o fewn grwpiau Cymorth i Ferched ac asiantaethau allanol yng Nghymru, sy'n darparu gwasanaethau i fenywod a phlant ac yn cynyddu ymwybyddiaeth ynghylch cam-drin domestig.

Pam bod angen Hyfforddiant Achrededig arnom?

Mae agenda addysg a dysgu gydol oes Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu'r ysgogiad ar gyfer sicrhau bod pob aelod o staff yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd a gwella eu sgiliau presennol yn y gweithle. Amlinellir hyn yn y fframwaith polisi a chyfeiriad strategol, gan amlygu math o hyfforddiant sy'n fwy hyblyg a hygyrch. Mae cael gweithlu sy'n gymwys, yn fedrus ac yn wybodus yn adlewyrchu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r menywod a'r plant sy'n eu defnyddio.

Mae Hyfforddiant Achrededig ar Gam-drin Domestig yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion ac yn sicrhau y cydnabyddir hyfforddiant yn y maes arbenigol hwn.

"Bydd hyblygrwydd a pherthnasedd wrth wraidd y system. Bydd cynllunio'r ddarpariaeth o ddysgu yn sicrhau'r hyblygrwydd i ymateb i'r galw, gyda Chynghorau Sgiliau Sector yn ddylanwad allweddol. Bydd cenhedlaeth newydd o gymwysterau galwedigaethol ar sail credydau yn cyd-fynd yn well ag anghenion y cyflogwr a'r dysgwr. Bydd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad o safon uchel yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a chyflawni eu huchelgeisiau."
(LICC - Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru)

Pwy sy'n dilysu ac yn achredu Hyfforddiant Cam-drin Domestig?

Archwiliodd a gwerthusodd Cymorth i Ferched Cymru y gwahanol lwybrau i achrediad, gan gydweithio â Mudiadau Cymorth i Ferched yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Roedd cael meysydd pwnc a chwricwlwm craidd yn golygu y gellid trafod y math mwyaf addas o achrediad. Roedd yr angen am hyblygrwydd, y gallu i ddatblygu hyfforddiant achrededig arbenigol a hygyrchedd yn allweddol wrth ddewis darparwr achrediad.

Dewisodd Cymorth i Ferched Cymru, yn unol â Mudiadau eraill y DU, weithio gyda **Rhwydwaith y Coleg Agored Cenedlaethol** (NOCN) ac yn benodol, **Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN) Cymru**. Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu dyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran datblygu cymwysterau sy'n bodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr.

Cydnabyddir Cymorth i Ferched Cymru fel canolfan OCN i ddarparu Cymwysterau NOCN. Yn ogystal â darparu hyfforddiant achrededig, gellir ysgrifennu ac achredu unedau dysgu arbenigol. Mae hyn yn darparu cymwysterau unigryw ym maes cam-drin domestig.

Beth yw Cymwysterau NOCN?

Unedau dysgu ar wahanol lefelau ar sail credydau yw cymwysterau NOCN neu OCN.

Beth yw Credydau a Lefelau?

Mae credydau yn dangos maint eich cyflawniadau dysgu a ddyfernir ar un lefel neu fwy.

- Mae Lefel Un yn debyg i NVQ1, GNVQ Sylfaen a graddau D-G TGAU.
- Mae Lefel Dau yn debyg i NVQ2, GNVQ Canolradd a graddau A*–C TGAU.
- Mae Lefel Tri yn debyg i NVQ3, Lefel A, Lefel AS a TAAU.

Beth am gymwysterau lefel uwch?

Mae dysgu ar sail credydau ar ffurf unedau: mae hyn yn golygu y gellir datblygu dyfarniadau dilynol megis Tystysgrifau a Diplomâu gan ddefnyddio unedau fel y blociau adeiladu. Ceir unedau craidd ar wahanol lefelau, gyda nifer gwahanol o gredydau, ynghyd ag unedau penodol megis gwasanaethau plant, iechyd meddwl a thai, y gellir eu dewis i 'adeiladu' dyfarniad dilynol.

Beth mae Cymorth i Ferched Cymru yn ei gynnig?

Fel canolfan, mae Cymorth i Ferched Cymru yn cynnig amrywiaeth o gymwysterau OCN gan gynnwys Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig, Effaith Cam-drin Domestig ar Blant, a Hyfforddi'r Hyfforddwr.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wrthi'n ysgrifennu unedau penodol ar wahanol lefelau i'w hychwanegu at y portffolio hyfforddiant achrededig, er mwyn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant yn fewnol yn ogystal ag yn allanol.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu gweithio gydag asiantaethau allanol i ddatblygu ac ysgrifennu unedau a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn hysbysu eraill ymhellach ynglŷn â cham-drin domestig a'i effaith.

I gael amlinelliad llawn o'r unedau sydd ar gael neu ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Colette Morgan, Cydlynydd y Prosiect Achrediad
Ffôn: **029 20 390 874**

Cymorth i Ferched Cymru
38–48 Heol Crwys,
Caerdydd CF24 4NN

Ffôn 02920 390874
Ffacs 02920 390878
E-bost info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org